

2019 Rhif 35

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

Cyfarwyddydau Deddf
Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-
drefniadau Mabwysiadu) (Cymru)
(Diwygio) 2019

Gwnaed

30 Medi 2019

Yn dod i rym

30 Hydref 2019

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 3A(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1), ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau lleol yng Nghymru y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u gwasanaethau mabwysiadu(2), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Hydref 2019.

(1) 2002 p. 38. Mewnosodwyd adran 3A gan adran 170 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

(2) Mae adran 3A(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdodau lleol y rhoddir y Cyfarwyddydau iddynt. Ymgynghorwyd ar y cynnig i leihau'r terfyn amser presennol ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio i Gofrestr Fabwysiadu Cymru fanylion darpar fabwysiadwyr unwaith y cânt eu cymeradwyo, a manylion plant y mae penderfyniad wedi ei wneud ar eu cyfer y dylent gael eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu, fel rhan o Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru WG36071 (Rheoliadau i gyflwyno proses gymeradwyo dau gam ar gyfer mabwysiadwyr), a ddyroddwyd ar 3 Hydref 2018.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru.

(4) Yn y Cyfarwyddydau hyn, ystyr "y Prif Gyfarwyddydau" yw Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015⁽¹⁾.

Diwygiadau i'r Prif Gyfarwyddydau

2. Mae'r Prif Gyfarwyddydau wedi eu diwygio fel a ganlyn—

- (a) ym mharagraff 3(1), hepgorer y diffiniad o "cymdeithas fabwysiadu gofrestredig" (*"registered adoption society"*);
- (b) ym mharagraff 16—
 - (i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "tri" rhodder "un";
 - (ii) yn is-baragraff (3)(a), yn lle "tri" rhodder "un".

Enw

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru
Dyddiad

(1) Llofnodwyd Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau mabwysiadu) (Cymru) (2015 Rhif 12) ar 12 Mawrth 2015 gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru llyw.cymru/cyfarwyddydau-deddf-mabwysiadu-phlant-2002-cyd-drefniadau-mabwysiadu-cymru-2015-rhif-12.